# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Herio Dilysrwydd Offerynnau'r UE (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **5 Mawrth 2019** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit** |

Mae'r OS Ymadael â'r UE hwn yn deddfu mewn pwnc a gedwir yn ôl, felly nid yw gofynion Rheol Sefydlog 30C yn berthnasol iddo. Fodd bynnag, gan fod yr OS yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, mae datganiad ysgrifenedig yn cael ei osod er mwyn ei ddwyn i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar hyn o bryd, gall llysoedd a thribiwnlysoedd y DU wneud atgyfeiriad rhagarweiniol i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) pan fo angen penderfyniad ar gwestiwn er mwyn galluogi'r llys neu'r tribiwnlys i roi dyfarniad. Gellir atgyfeirio i gael dyfarniad ynghylch a yw cyfraith berthnasol yr UE yn ddilys mewn gwirionedd. Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, ni fydd modd i lysoedd a thribiwnlysoedd y DU wneud atgyfeiriad rhagarweiniol bellach i'r CJEU. O ganlyniad, ni fydd gan y CJEU unrhyw swyddogaeth yn y DU pan fydd cwestiynau'n codi ynghylch dehongli neu ddilysrwydd cyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl ymadael ac yn dilyn hynny.

Mae'r OS, sydd i'w wneud o dan Baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), yn gwneud darpariaeth drosiannol er mwyn i lysoedd a thribiwnlysoedd y DU fedru ystyried dilysrwydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn hytrach na'r CJEU. Amcan y polisi yw osgoi'r posibilrwydd o weld achosion yn cael eu dal mewn limbo cyfreithiol, lle nad oes modd symud ymlaen nes i lys neu dribiwnlys y DU gael dyfarniad gan y CJEU na fydd byth yn cyrraedd.

Byddai cyfyngiad amser ar y pwerau hyn er mwyn ymdrin ag achosion sydd eisoes yn mynd rhagddynt cyn ymadael yn unig. Dim ond dau achos sy'n aros am ddyfarniad ar hyn o bryd fyddai'n sicr o gael eu dal gan y cynigion hyn pe bai'r DU yn ymadael heddiw. Nid oes modd dweud i sicrwydd faint o heriau eraill i ddilysrwydd fydd yn codi cyn y diwrnod ymadael, ond gan mai dim ond deg atgyfeiriad o'r fath a gafwyd yn y pedair blynedd diwethaf, mae'n annhebygol o fod yn nifer fawr.

Bydd yr OS hwn yn rhoi swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru drwy roi pŵer iddynt ymyrryd mewn achosion o'r fath. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gallai achosion godi lle byddai heriau i ddilysrwydd cyfraith yr UE yn effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru. Ar ben hynny, pan fo llys yn bwriadu cyhoeddi datganiad annilysrwydd, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru, yn ogystal â Gweinidogion y DU, Gweinidogion yr Alban ac adran Gogledd Iwerddon.

Mae'r OS hwn yn deddfu mewn perthynas â gweithrediad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, ac o ganlyniad mae'n fater a gedwir yn ôl. Nid yw'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gan ei fod yn fater a gedwir yn ôl, ni wnaeth Llywodraeth y DU ofyn yn ffurfiol am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gosod yr OS yn y Senedd. Fodd bynnag, ysgrifennodd Chris Heaton-Harris AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r UE, at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit fel mater o gwrteisi ac i hysbysu Gweinidogion Cymru am gynlluniau i roi pŵer newydd iddynt. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw wrthwynebiad i dderbyn y swyddogaethau newydd hyn.

Nid yw'r OS hwn yn diwygio deddfwriaeth bresennol y DU na chyfraith yr UE a ddargedwir. Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol drwy'r ddolen ganlynol:

http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111180693